Annwyl bawb,

Dros yr wyth mis diwethaf, mae busnesau bwyd a diod ar draws Cymru wedi gorfod addasu, bod yn hyblyg a datblygu modelau busnes cadarnach o ganlyniad i bandemig Covid-19. Heb os nac oni bai, mae llawer o fusnesau wedi wynebu caledi ac maent yn parhau i wneud hynny, a hynny heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain. Ond o newid cadwyni cyflenwi i gyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd, mae busnesau yng Nghymru wedi dechrau cymryd y camau cyntaf i fod yn fwy gwydn yn dilyn argyfwng y coronafeirws ac i fod yn fwy cynaliadwy wrth i ni baratoi ar gyfer Brexit.

Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi parhau i weithio'n ymarferol gyda busnesau, clystyrau a Llywodraeth Cymru i leisio pryderon, cyfleu blaenoriaethau a rhannu atebion ar gyfer nawr ac ar gyfer y tymor hir. Y sgyrsiau hyn a osododd y sylfaen ar gyfer ein Cynllun Adfer yn sgil Covid-19 – sef cynllun interim sy'n amlinellu'r llwybrau allweddol i helpu busnesau yn y tymor byr. Mae'r cynllun yn cwmpasu'r sialensiau a'r cyfleoedd y mae'r diwydiant yn eu hwynebu, ac yn cynnig map ffordd ymarferol i gynorthwyo busnesau trwy'r misoedd sydd i ddod. Ein bwriad yw hoelio ein hymdrechion ni i gyd ar gael ein diwydiant bendigedig nôl ar ei draed, nid dim ond trwy’r pandemig C19, ond ymlaen trwy Brexit.

Mae'r cynllun yn cynnwys cyngor busnes o sylwedd o'r byd go iawn ar faterion fel hybu a datblygu gwerthu ar lein, adeiladu modelau busnes gwydn, rheoli risgiau, ychwanegu gwerth at gadwyni cyflenwi, cyllid fforddiadwy, achrediad y diwydiant, hyfforddiant a datblygu sgiliau.

Er bod y Cynllun Adfer wedi cael ei lunio mewn ymateb i'r pandemig, bydd llawer o'i gynnwys ymarferol yr un mor berthnasol i fusnesau sy'n gweithredu yn y sector wrth iddynt wynebu'r newidiadau a'r sialensiau anochel a ddaw yn sgil Brexit wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr.

Rydyn ni am bwysleisio bod ailystyried modelau busnes yn bwysicach nawr nag erioed yng ngoleuni goblygiadau'r pandemig. Bydd archwilio amrywiol anghenion ac ymddygiad cwsmeriaid yn hanfodol er mwyn cadw busnesau'n hyfyw, ac er mwyn i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru elwa ar ein

cyfran ni o'u gwariant. Byddem yn annog busnesau i ddarllen y Cynllun Adfer am ei fod yn disgrifio'r cynlluniau ar gyfer y ffordd orau a mwyaf effeithiol o fynd ati i gyflawni hyn ar ffurf gryno.

Byddai'n dda gennym glywed gan fusnesau am sut maen nhw'n teimlo y gallwn ni ddod â'r cynllun adfer yma'n fyw yng Nghymru. Yn rhan o'n hymgyrch i gysylltu'n uniongyrchol â busnesau, ac ochr yn ochr â'n cysylltiadau rheolaidd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'n newyddlen, rydyn ni wedi cychwyn rhaglen o weminarau sy'n cynnig llwybr uniongyrchol at arbenigedd, canllawiau a chymorth y llywodraeth.

Hyd yn hyn, rydyn ni wedi cynnal gweminar ar effeithiau ehangach y coronafeirws ar y diwydiant bwyd a diod, ein Cynllun Adfer yn sgil Covid-19, rheoli cronfeydd arian parod a chynigion i gadw rheolaeth ar eich llif arian, yn ogystal â'r diweddaraf ar brentisiaethau, sgiliau a hyfforddiant yng Nghymru. Rydyn ni yn y broses o gydlynu gweminarau'r dyfodol, felly os oes unrhyw awgrymiadau gennych, neu unrhyw feysydd yr hoffech chi ein gweld ni'n eu trafod, rhowch wybod i ni. Dilynwch ni ar Twitter a LinkedIn a chofrestrwch i gael ein newyddlenni i gael y manylion diweddaraf am bynciau a dyddiadau gweminarau'r dyfodol.

Wrth gwrs, a dim ots a yw'ch busnes yn y byd lletygarwch, manwerthu, cynhyrchu bwyd neu dwristiaeth bwyd, byddem yn eich annog i leisio'r pryderon sydd gennych am y pandemig ac am Brexit, nid dim ond i'r Bwrdd, ond hefyd i gydweithwyr a busnesau eraill, fel y gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i'r atebion gorau. Trwy barhau i gydweithio, gall Cymru ddod drwyddi’n well ac yn gryfach nag erioed o'r blaen.

**Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**